# Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

clerc@cyngor-llangelynnin-council.org.uk
**Clerc:** Jane Jenkins, 2 Talybont, Dolgellau, Gwynedd, LL40 1UA

## Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher – 10.09.25 - am 7yh yn Y Ganolfan, Llwyngwril

**Agorwyd y cyfarfod am 7.00yh**

**Presennol:** Geraint Edwards – Cadeirydd (GE), Keith Carroll – Is Gadeirydd (KC), Ian Williams (IW), Huw Davies (HD), Cath Severn (CS), David Griffiths (DG), Geraint Micah (GM), Megan Griffiths (MG), Louise Hughes – Cynghorydd Sirol (LH) a Jane Jenkins (Clerc).

**1. Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

**2. Ymddiheuriadau:** Jane Lawrence
**2.1 Datgan Diddordeb:** Dim.

**3. Cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf:** cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar **09.07.25** yn gywir.
**Cynnig:** IW **Eiliwyd:** DG **Arwyddwyd:** GE

**4. Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol – 09.07.25**

***1**. Ffens y Cae Chwarae*

Cynghorodd CS fod cyllid wedi'i gael ar gyfer yr holl ddeunyddiau sydd eu hangen i lanhau ac ailbaentio'r rheiliau ffens y cae chwarae, felly dim cost o gwbl i'r Cyngor Cymuned. Cyflwynwyd "Asesiad Risg" a chafodd ei wirio a'i gymeradwyo gan y Cyngor Cymuned. Mae CS wedi drafftio dogfen y byddai hi'n hoffi ei phostio ar y dudalen FB â'r Dudalen Gwerthfawrogiad yn gofyn am wirfoddolwyr ,ac awgrymwyd y dylai gynnig cwpl o ddyddiadau i bobl ddewis ohonynt. Nodwyd y bydd angen cau'r ardal i ffwrdd a gosod arwyddion priodol. CS i anfon copi o'r asesiad risg a chopi o'r post ar gyfer y dudalen FB a'r Dudalen Gwerthfawrogiad at y Clerc.
Soniodd GE fod rhywfaint o dwf llystyfiant y byddai angen sylw, a bydd hyn yn cael ei ystyried pan fydd y gwaith ar y ffens yn dechrau.

> **PENDERFYNWYD:** Cytundeb unfrydol i dderbyn yr "asesiad risg" a symud ymlaen â'r prosiect.

***2.** Diffibrilwyr*

Trafodwyd yr e-bost a dderbyniwyd gan JL a oedd yn cynnwys prisiau ar gyfer cabinet y diffibriliwr, padiau, batri, gosodiadau a cost gosod y ddiffibrilwyr. Cytunwyd y dylai'r mater symud ymlaen nawr a'r rhannau gael eu harchebu. Nid yw'n glir beth yw'r amserlen o'r archeb i'r danfoniad ar hyn o bryd. Trafododd yr aelodau y dylai'r Clerc wneud yr archebu i gyd er mwyn sicrhau fod gan y Cyngor Cymuned gadarnhad ar ddu a gwyn i'w ffeils / copi ar record. Dylai anfonebau i'w cyfeirio i'r Cyngor Cymuned i alluogi adennill TAW. Nodwyd diweddariad JL ar y Dudalen Gwerthfawrogiad ond gyda sefydlu'r dudalen Facebook newydd ar gyfer y Cyngor Cymuned - cytunwyd y dylid rhoi unrhyw wybodaeth a phostiadau yn y dyfodol ar honno yn gyntaf, ac yna eu rhannu â'r Dudalen Gwerthfawrogiad fel post y Cyngor. Bu rhywfaint o drafodaeth ynghylch cynnal a chadw'r diffibrilwyr, gan y bydd pedwar yn eiddo i'r Cyngor Cymuned, a dylid ystyried y costau o hyn i gyd yn y praesept nesaf. Awgrymwyd codi arian pellach.

> **PENDERFYNWYD:** Cytundeb unfrydol i dderbyn y costau a symud ymlaen gyda phrynu'r ategolion a gosod y diffibriliwr ym mhen Gwastadgoed y pentref.

> **GWEITHRED:** Y Clerc i gysylltu â JL a threfnu i archebu'r eitemau a chael anfonebau.

Hefyd, ynglŷn â'r diffibrilwyr, eglurodd GE fod y diffibriliwr yn Y Ganolfan wedi bod angen batri a phadiau newydd ym

RGE

Mis Awst, a heb gyfarfod yn Awst - roedd wedi penderfynu trefnu i'r ddau gael eu amnewid. Yna awgrymodd GE, ar gyfer materion yn ymwneud ag iechyd a diogelwch, y dylai'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a'r Clerc allu awdurdodi'r Ymatebwyr Cyntaf i archebu'r eitemau heb yr angen i aros tan y cyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned. Gellid cyfuno'r penderfyniad hwn, os caiff ei dderbyn gan y Cyngor Cymuned, yn y Rheolau Sefydlog pan fyddant yn cael eu hadolygu ym Mis Tachwedd ond yn y cyfamser byddai'n benderfyniad cofnodedig.

**PENDERFYNWYD:** Cytunwyd yn unfrydol y dylid derbyn yr awgrym yma, a'i gyflwyno ar unwaith.

**GWEITHRED:** Y Clerc i nodi bod y Rheolau Sefydlog i'w diwygio i gynnwys y penderfyniad hwn pan fyddant yn cael eu hadolygu ym Mis Tachwedd.

**3.** Gofynnodd HD a oedd unrhyw ddiweddariadau ar gael ynghylch y problemau gyda'r palmant ger Ffordd Y Felin, Llwyngwril, a chyflwr y llwybr arfordirol/ffordd ddi-ddosbarth rhwng Parthygwyddwch a Tydfarch, Llwyngwril. Dywedodd y Clerc nad oedd ymateb wedi dod i law hyd yn hyn.

**GWEITHRED:** Y Clerc i gysylltu â Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd â'r Llwybrau Arfordirol unwaith eto.

## 5. Gohebiaeth wedi eu derbyn:

***1.*** *E-bost gan Dafydd Roberts (Eryri ynghylch Ased Dŵr Cymru diangen)*
Nodwyd. Dywedodd HD ei fod wedi siarad â Dafydd Roberts yn ddyweddar yn yr Arddangosfa yn Y Ganolfan ac wedi trafod y problemau yr oeddem yn eu hwynebu gyda Dŵr Cymru a'r bibell ddiangen. Cadarnhaodd Dafydd Roberts y byddai yn ymchwilio'r mater. Mae'n ymddangos ei fod wedi gwneud hynny gyda'r canlyniad yn golygu y bydd y bibell yn cael ei symud o'r safle.

***2.*** *E-bost ynghylch tîm bioamrywiaeth Dŵr Cymru*
Nodwyd.

***3.*** *E-bost gan Gofal Canser Tenovus*
Nodwyd cynnwys yr e-bost a chytunodd y Cynghorwyr y byddai ymweliad â'n cyfarfod nesaf yn fuddiol i ddeall beth yw pwrpas Gofal Tenovus.

**GWEITHRED:** Y Clerc i ymateb i'r e-bost a rhoi gwahoddiad i'r cyfarfod nesaf - Mis Hydref.

***4.*** *Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ymestyn dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarlledu cyfarfodydd*
Nodwyd.

***5.*** *Hysbysiad Cau Ffordd*
Nodwyd.

Mae yna hefyd ail hysbysiad cau ffordd yn ymwneud â'r 13.09.25 a fydd yn cael ei roi ar dudalen FB y Cyngor Cymuned.

## 6. Materion Cynllunio:

**6.1 (Apêl Sunbeach)**

6.1a Negeseuon e-bost a dderbyniwyd x 2
6.1b Hysbysiad Safle PEDW
6.1c Hysbysiad gan David Pryce Jones
6.1d Gwahoddiad i gyfarfod rhithwir (PCAC/PEDW)

Nodwyd y cyfan.

RGE

Derbyniwyd e-bost ar 10.09.25 gan ENPA yn hysbysu bod y cyfarfod rhithwir ar yr 11eg wedi'i ganslo gan PEDW oherwydd salwch.

Derbyniwyd e-bost pellach hefyd ar 10.09.25 ynghylch defnyddio'r “cae cerdded cŵn” a gwybodaeth anghywir yn nogfennau terfynol yr apêl (Mehefin 2025) yn nodi bod Sunbeach wedi'i ddefnyddio ers yr 20 mlynedd diwethaf. Mae hyn wedi'i herio ar y sail bod y cae wedi'i ddefnyddio ar gyfer anifeiliaid fferm hyd at 2016/17. Jane Jones o ENPA yw'r swyddog gyda'r anghysondeb hwn yn y ddogfennaeth. Nododd aelodau y Cynogr Cymuned fod anifieiliaid fferm wedi bod yn pori y tir hyd at 2016/17, a roedd yr aelodau yn coelio na werthwyd y tir i Sunbeach tan 2017, ond y byddai angen iddynt gadarnhau hyn.

Adolygwyd y ddogfennaeth gynllunio ar-lein yn y cyfarfod, a'r cyfan y gellid dod o hyd iddo oedd bod Sunbeach wedi defnyddio'r cae “ers blynyddoedd lawer”. Gofynnwyd i'r Cyngor Cymuned ysgrifennu at ENPA yn cadarnhau bod y cae wedi'i ddefnyddio ar gyfer anifeiliaid fferm hyd at 2016/17, ond roedd y Cynghorwyr eisiau egluro'r mater cyn anfon unrhyw lythyr - os oes dogfen yn nodi 20 mlynedd yna byddent yn dymuno ei gweld. Gofynnwyd i'r Clerc ymchwilio ymhellach i'r mater a siarad â Jane Jones, os yn briodol. IW i wneud ymholiadau ynghylch pryd y gwerthwyd y tir, a cael cadarnhad ynghylch beth oedd y tir yn cael ei ddefnyddio i cyn y gwerthiant.

> **PENDERFYNWYD:** Cytunwyd yn unfrydol, unwaith y bydd ymholiadau wedi'u gwneud ac ar ôl darparu prawf o'r cyfeiriad at 20 mlynedd a mwy, y dylai'r Clerc ysgrifennu at ENPA yn cadarnhau bod y wybodaeth yn y ddogfen yn ffug ac yn cadarnhau pryd y gwerthwyd y tir, a beth oedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer, cyn y gwerthiant.
>
> **GWEITHRED:** Y Clerc i ddilyn i fyny

Gofynnodd GE a fyddai unrhyw un o'r Cynghorwyr â diddordeb mewn cynrychioli'r Cyngor Cymuned pan gyhoeddir dyddiad y cyfarfod rhithwir nesaf. Cytunwyd y gellid ei drafod ymhellach unwaith y cyhoeddir dyddiad newydd.

**6.2 Cais Cynllunio – NP5-69-LB18G - Hendre, Llwyngwril**

Trafodwyd y cais.
Gadawodd MG yr ystafell oherwydd buddiant rhagfarnllyd a nododd CS fuddiant personol oherwydd ei bod yn gweithio i'r ymgeisydd yn un o'i fusnesau eraill, a dywedodd y byddai'n gwrthod gwneud sylwadau beth bynnag.
Cwblhaodd MG a CS ffurflenni Hysbysu Buddiant Personol.

> **PENDERFYNWYD:** Dim sylwadau i'w gwneud, cytunwyd gan bawb.
>
> **GWEITHRED:** Y Clerc i gadarnhau nad oedd gan y Cyngor Cymuned unrhyw sylwadau.

## 7. Adroddiad Ariannol:

**1**. *Adroddiad Araiannol ar gyfer Mis Gorffennaf a Mis Awst 2025*

> **PENDERFYNWYD**: Cytunwyd yn unfrydol fel cyfrif gwir
> **Cynigiwyd:** IW **Eiliwyd:** HD **Llofnodwyd**: GE

**2.** *Anfonebau/Taliadau*

Cyflog a chostau'r Clerc - Awst, Archwiliad Mewnol, Batri a Padiau i'r Defib, Cyfieithu, HMRC (£21.80).
Darparodd DG lythyr gan Wynnstay yn cadarnhau pris am feinciau o £345 ynghyd â TAW.

> **PENDERFYNWYD:** Cytundeb unfrydol i wneud yr holl daliadau a llofnodi sieciau.
> Gofynnodd y Clerc am yr anfoneb TAW yn enw'r Cyngor Cymuned ar gyfer y meinciau ar ôl i'r taliad gael ei wneud i Wynnstay.
>
> **GWEITHRED:** Y Clerc i wneud yr holl daliadau.

**3.** *Praesept a thaliadau Scottish Power*

RGE

Nodwyd. Mae'r praesept wedi'i dderbyn yn y cyfrif banc.

8. **Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr: Dim.**

9. **Adroddiad y Cynghorydd Sirol:**

Dywedodd y Cynghorydd Louise Hughes nad oedd unrhyw gyfarfodydd wedi bod ym Mis Awst. Soniodd, mewn perthynas â chynllunio Sunbeach, fod llawer o'r bobl ar y safle yn erbyn y cais.

Cadarnhaodd LH hefyd ei bod wedi siarad ag Iwan ap Trefor ynghylch y mater ffordd ddi-ddosbarth, a bod ymweliad safle i fod i ddigwydd ond nad oes dyddiad wedi'i ddarparu ac nid oes unrhyw wybodaeth arall ar gael ar hyn o bryd.

10. **Unrhyw Fater Arall:**

IW – holodd am y cais am arwydd newydd i'r pentref – dywedodd y Clerc nad oedd wedi derbyn ymateb eto.

**GWEITHRED:** Clerc i ddilyn i fynny a gofyn am ateb.

DG – dywedodd wrth y Cyngor fod gan Wynnstay fainc sbâr os oes gan y Cyngor Cymuned ddiddordeb – cytunwyd y gellir ei adolygu yn y flwyddyn ariannol newydd gan mai dim ond dau oedd y cytundeb ar gyfer eleni.

CS – holi am farciau ffordd sy'n ymddangos ar yr A493 a dywedwyd wrthi eu bod yn cael eu rhoi yno i amlygu atgyweiriadau pan fydd y cyllid ar gael. Awgrymwyd y dylai CS adrodd trwy wefan Cyngor Gwynedd.

CS – soniodd am y wal i lawr yr afon o'r bont goch a gyferbyn â'r Hen Efail sydd wedi difrodi. Mae'n ymddangos bod chwynladdwr wedi'i chwistrellu gan ladd y chwyn oedd yn dal y briciau at ei gilydd.
Trosglwyddwyd ffotograffau i'r Clerc a nodwyd hefyd fod rhai briciau wedi cwympo i'r afon.

**GWEITHRED:** Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Swyddog Llwybrau Cyhoeddus Cyngor Gwynedd a gofyn iddynt eu asesu a'i atgyweirio.

CS – cynghorodd fod hi'n amser chwistrellu'r Japaneese Knotweed – 3 x prif ardal, Pont Goch, safle wrth y cychod ar ochr Borthwen o'r afon ac yng nghefn y siop. Ymddengys ei fod wedi marw ym mhobman arall. Y gost fydd £100.
Cytunwyd gan bawb i symud ymlaen – **Cynigiwyd:** KC **Eiliwyd**: IW.
Clerc i gael caniatâd gan Mei Black i chwistrellu o amgylch y siop. Cadarnhaodd MG nad oedd Borthwen yn broblem.
CS i drefnu dyddiad ar gyfer y chwistrellu.

GE – gofynnodd a yw'r dudalen FB wedi ei sefydlu? Cadarnhaodd DG ei bod hi, a'i fod ef a'r clerc yn weinyddwyr.

Clerc yn cynghori na all hi gael mynediad i'r dudalen. Cytunwyd i ddileu'r dudalen a sefydlu un newydd gyda DG a'r Clerc fel gweinyddwyr. Pob post i'w gymeradwyo gan y gweinyddwyr a'i roi ar dudalen y Cyngor Cymuned cyn ei rannu â'r Dudalen Gwerthfawrogiad. Dim sylwadau i'w gwneud gan y cyhoedd.
DG i gadarnhau pan fydd y dudalen FB wedi ei sefydlu.

**11. Materion Cyflogaeth**

(Mae hwn yn fater cyfrinachol, bydd y cyhoedd a'r wasg yn cael eu heithrio o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem hon)

***1. Cytundeb Cyflog Gwasanaethau Llywodraeth Leol 2025/26***

Darparwyd y ddogfen gan y Clerc i'r Cynghorwyr i'w thrafod a gadawodd y Clerc yr ystafell. Cwblhawyd hysbysiad o fuddiant personol gan y Clerc.

**PENDERFYNWYD:** Bydd y dyfarniad cyflog yn unol â'r Cytundeb ac yn dechrau ar unwaith.
Bydd y gyfradd gyflog newydd yn cael ei hôl-ddyddio i fis Ebrill 2025.

Cyfarfod wedi dod i ben am 8.45yh.

RGE

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: Nos Fercher – 08.10.25 am 7 o'r gloch yn y Ganolfan, Llwyngwril**

**Arwyddwyd**
**Cadeirydd …………R G Edwards……………………..……………… Dyddiad …08/10/2025…**

RGE